# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**The Beeches**

**Cartref Nyrsio The Beeches**
**1 Bethuel Street**
**Aberdâr**
**CF44 7HJ**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

19/06/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# The Beeches

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal â Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | PARKCARE HOMES LIMITED |
| Lleoedd cofrestredig | 46 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 12 Ebrill 2023 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb


Mae'r bobl sy'n byw yn The Beeches yn cael gofal a chymorth da sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'r rhan fwyaf o'r gweithwyr gofal wedi gweithio yn y gwasanaeth am sawl blwyddyn. O ganlyniad, mae'r staff yn adnabod y bobl y maent yn rhoi cymorth iddynt yn dda iawn, ac maent yn gyfarwydd â'u hanghenion a'u harferion. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn hapus iawn yn byw yn y gwasanaeth. Rhoddodd perthnasau'r bobl adborth llawn canmoliaeth ar y gwasanaeth y mae eu hanwyliaid yn ei gael. Rhoddir cyfleoedd i'r bobl gymryd rhan mewn gweithgareddau. Caiff anghenion maeth eu deall a'u diwallu.

Mae'r ddogfennaeth gofal yn fanwl ac yn nodi anghenion gofal a chymorth y bobl yn glir. Mae'r asesiadau risg yn helpu i nodi a rheoli meysydd o bryder. Caiff y ddogfennaeth gofal ei hadolygu'n rheolaidd er mwyn sicrhau ei bod yn berthnasol o hyd. Mae'r systemau sydd ar waith yn sicrhau y caiff meddyginiaeth ei storio a'i rhoi yn ddiogel. Mae'r gweithwyr gofal yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan y tîm rheoli ac maent yn hapus yn gweithio yn y gwasanaeth. Mae'r gweithwyr gofal yn nodi bod morâl y tîm yn *"very good".* Mae trefniadau llywodraethu addas ar waith sy'n helpu'r gwasanaeth i redeg yn ddidrafferth. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn goruchwylio'r gwasanaeth yn dda a chaiff gwaith monitro er mwyn sicrhau ansawdd ei gwblhau yn rheolaidd. Mae'r amgylchedd yn lân, yn gyfforddus ac wedi'i gyflwyno'n dda. Mae archwiliadau rheolaidd a rhaglen cynnal a chadw parhaus yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel.

## Llesiant

Mae llesiant cyffredinol y bobl yn cael ei hyrwyddo gan wasanaeth sy'n darparu gofal a chymorth da. Mae gan y bobl lais a chânt eu trin â pharch ac urddas. Mae gan y gweithwyr gofal wybodaeth dda iawn am arferion y bobl, ac am yr hyn sy'n bwysig iddynt. Caiff y bobl gyfleoedd i gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau. Mae'r gweithgareddau yn canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn ystyried cyflyrau iechyd ac anghenion yr unigolion yn y cartref. Mae amserlen fisol ar waith i roi gwybod i'r bobl pa weithgareddau a gaiff eu cynnal a phryd.

Mae'r bobl yn byw mewn amgylchedd sy'n eu cefnogi i ddiwallu eu hanghenion. Caiff y llety ei ddarparu dros ddau lawr. Mae'r ystafelloedd gwely yn gyfforddus ac wedi'u personoli'n unol â dewisiadau'r bobl. Mae digon o ardaloedd cymunedol ar gael. Mae cymhorthion symudedd addas ar gael i helpu'r bobl lle bo angen. Mae amgylchedd glân a chyfforddus yn helpu i gefnogi llesiant y bobl. Mae'r cartref mewn cyflwr da. Caiff y bobl eu diogelu rhag achosion o ymwelwyr heb awdurdod yn dod i mewn i'r adeilad. Rhaid i bob ymwelydd ganu cloch y drws ffrynt er mwyn dod i mewn a gofynnir i bob ymwelydd gofnodi ei ymweliad yn y llyfr ymwelwyr wrth gyrraedd a gadael. Caiff cofnodion gofal eu storio'n ddiogel a dim ond gweithwyr gofal awdurdodedig all gael gafael arnynt.

Mae'r tîm rheoli a'r Unigolyn Cyfrifol yn casglu adborth yn rheolaidd i sicrhau bod y gofal a ddarperir yn bodloni disgwyliadau. Mae trefniadau rheoli meddyginiaeth da ar waith. Caiff meddyginiaeth ei storio'n ddiogel, ac mae'r bobl yn cael eu meddyginiaeth fel y'i rhagnodir. Mae rhestrau glanhau ac archwiliadau iechyd diogelwch rheolaidd yn hyrwyddo diogelwch a safonau glendid a hylendid da. Mae'r bobl yn cael eu diogelu rhag niwed ac esgeulustod. Mae'r staff wedi cael hyfforddiant ar ddiogelu pobl sy'n agored i niwed ac mae polisi diogelu ar waith i arwain y staff. Caiff y bobl eu cefnogi i gynnal a gwella eu hiechyd a'u llesiant drwy gyfleoedd i gael gofal a chyngor arbenigol pan fydd eu hangen arnynt. Caiff atgyfeiriadau at weithwyr proffesiynol eu gwneud mewn modd amserol, ac mae tystiolaeth i ddangos bod gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn ymweld â'r preswylwyr.

## Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn cael gofal a chymorth o safon dda wedi'u teilwra'n benodol i ddiwallu eu hanghenion unigol. Mae gan y cartref gynllun 'preswylydd y diwrnod' sy'n cynnig cyfle i weithiwr gofal dynodedig dreulio amser pwrpasol ag unigolion, gan sicrhau eu bod bob amser yn gyfarwydd â'u dymuniadau a'u dewisiadau. Ymddengys fod y gweithwyr gofal yn adnabod y bobl y maent yn rhoi cymorth iddynt yn dda a'u bod yn gyfarwydd â'u hanghenion a'u harferion. Rhoddodd y bobl y gwnaethom siarad â nhw adborth cadarnhaol mewn perthynas â'r gweithwyr gofal. Dywedodd un person, "*I wouldn't change anything about living here*", "*staff look after me well*". Cafwyd adborth cadarnhaol hefyd gan berthnasau'r bobl, a ddefnyddiodd eiriau fel *"very good*", "*we have no issues or complaints at all*", i ddisgrifio safon y gofal a'r cymorth a roddir. Gwelsom fod y bobl yn gallu cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau y maent yn eu mwynhau sy'n hyrwyddo cynhwysiant a rhyngweithio cymdeithasol. Ar ddiwrnod yr arolygiad, gwelsom weithwyr gofal yn cynnig amrywiaeth o weithgareddau mewn amgylchedd hamddenol. Gwelsom ryngweithio cadarnhaol rhwng y gweithwyr gofal a'r bobl.

Caiff asesiadau eu cwblhau cyn i'r bobl symud i mewn i'r cartref. Mae hyn yn sicrhau bod y gwasanaeth yn gallu diwallu anghenion unigolion a'i fod yn gallu helpu'r bobl i gael gofal a chymorth i gyflawni canlyniadau personol. Mae'r cynlluniau personol yn fanwl ac yn canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'r cynlluniau yn amlinellu lefel y gofal a'r cymorth sydd eu hangen ar y bobl yn glir sy'n galluogi'r gweithwyr gofal i ddarparu'r cymorth gorau iddynt. Mae'r wybodaeth a nodir yn y cynlluniau personol yn cynnwys cynlluniau gofal, asesiadau risg a chynlluniau rheoli. Mae'r gweithwyr gofal yn cwblhau cofnodion dyddiol sy'n gywir ac sy'n rhoi gwybodaeth fanwl am y gofal a'r cymorth a ddarperir. Cynhelir adolygiadau o'r ddogfennaeth gofal bob mis, a chaiff diweddariadau eu rhoi ar waith os bydd eu hangen. Mae awdurdodiadau ar waith o dan y Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid ar gyfer y bobl nad oes ganddynt alluedd meddyliol i wneud penderfyniadau ynglŷn â'u gofal a'u cymorth. Mae'r awdurdodiadau hyn yn sicrhau bod y gofal a'r cymorth a roddir a all amddifadu pobl o'u rhyddid, yn gyfreithlon.

Caiff archwiliadau meddyginiaeth eu cynnal. Caiff meddyginiaethau eu storio'n ddiogel a dim ond personél ag awdurdod a all gael gafael arnynt. Mae'r gweithwyr gofal yn cael hyfforddiant perthnasol ac yn dilyn polisi meddyginiaeth sy'n hyrwyddo arferion diogel. Caiff meddyginiaethau eu harchwilio'n rheolaidd er mwyn nodi unrhyw faterion a mynd i'r afael â nhw. Gwnaethom edrych ar nifer o siartiau ar gyfer cofnodi achosion o roi meddyginiaeth a gwelsom fod y bobl yn cael eu meddyginiaeth yn unol â'r cyfarwyddiadau. Mae'r wybodaeth a gofnodir ar gynlluniau personol y bobl yn dangos eu bod yn gallu trefnu i weld gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn hawdd pan fo angen.

## Yr Amgylchedd

Mae'r bobl yn cael gofal a chymorth mewn amgylchedd sydd wedi'i addasu i ddiwallu eu hanghenion. Mae'r cartref ar ddau lawr ac mae lifft ar gael i'r unigolion hynny â phroblemau symudedd.  Mae'r ystafelloedd gwely wedi'u teilwra at chwaeth y bobl, ac yn cynnwys lluniau ac addurniadau sy'n gwneud i'r amgylchedd deimlo'n gartrefol ac yn gyfarwydd. Mae gan y gwasanaeth amrywiaeth o lolfeydd, lle gall y bobl ddewis treulio eu hamser. Mae gardd y tu blaen i'r adeilad sy'n darparu ardal ddiogel i'r bobl. Ar ddiwrnod yr arolygiad, gwelsom y bobl yn mwynhau wrth iddynt ymgymryd â gweithgareddau yn yr ardd. Roeddent yn ymddangos eu bod wedi ymlacio ac yn fodlon eu byd, sy'n awgrymu eu bod yn hapus yn yr amgylchedd. Mae'r gweithwyr gofal yn dilyn amserlenni glanhau dyddiol er mwyn cynnal lefelau glendid a hylendid da. Mae digon o gyfleusterau toiled ac ymolchi ar gael yn ogystal â chyfarpar symud a chodi a chario arbenigol fel teclynnau codi i'r rhai sydd eu hangen. Mae clychau galw ar gael i'r bobl er mwyn gallu rhoi gwybod i'r staff pan fydd angen cymorth arnynt.

Mae gwiriadau a threfniadau cynnal a chadw parhaus yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel. Gwelsom gofnodion a oedd yn dangos bod cyfleustodau a chyfarpar yn cael eu profi'n rheolaidd. Caiff profion diogelwch tân ac ymarferion tân eu cwblhau'n rheolaidd. Mae cynlluniau personol ar gyfer gwagio'r adeilad mewn argyfwng yn darparu canllawiau sy'n nodi sut y dylid symud y bobl mewn argyfwng. Caiff gweithwyr cynnal a chadw eu cyflogi i gynnal gwiriadau iechyd a diogelwch a gwaith atgyweirio cyffredinol. Caiff sylweddau sy'n beryglus i iechyd eu storio'n ddiogel ac nid oes unrhyw beryglon baglu amlwg. Caiff gwaith atgyweirio sydd ei angen ar yr eiddo ei gwblhau mewn modd amserol. Dyfarnwyd sgôr o dri i'r gwasanaeth gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd, sy'n awgrymu bod y safonau hylendid yn foddhaol.  Mae digon o gyfarpar diogelu personol ar waith. Caiff gwybodaeth bersonol y bobl, ynghyd â chofnodion personél y cyflogeion, eu storio'n ddiogel, a dim ond aelodau awdurdodedig o'r staff all eu gweld.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae'r gweithwyr gofal yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi yn eu rolau. Dywedodd y gweithwyr gofal y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn mwynhau gweithio yn y gwasanaeth, a rhoddwyd adborth a oedd yn ei ganmol fel "*I feel valued*", "*staff work very well together*", "*I don't think there is anything the home can do better*", "*I love working here*". Mae diwylliant o fod yn agored yn y cartref. Gwelsom fod drws swyddfa'r rheolwr bob amser ar agor a bod y bobl sy'n byw ac yn gweithio yn y gwasanaeth yn gallu mynd yno fel y mynnont i gael sgwrs.

Mae'r gweithwyr gofal yn cael hyfforddiant digonol ac mae'r arferion recriwtio yn ddiogel. Ar y cyfan, mae'r ffeiliau recriwtio staff yn cynnwys y wybodaeth a'r gwiriadau gofynnol er mwyn sicrhau bod y staff yn meddu ar y sgiliau hanfodol a bod eu cymeriad yn addas. Mae'r cofnodion yn dangos bod trefniadau sefydlu a hyfforddi da ar waith i'r staff. Dywedodd y gweithwyr gofal wrthym eu bod yn cael digon o hyfforddiant i gyflawni eu dyletswyddau'n effeithiol ac yn ddiogel. Mae'r wybodaeth am hyfforddiant a welsom yn dangos ar y cyfan bod y gweithwyr gofal wedi bodloni'r gofynion diweddaraf o ran hyfforddiant. Mae strwythur staffio clir ar waith ac mae pob aelod o'r staff y gwnaethom siarad â nhw yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau. Gwelsom fod y rhan fwyaf o'r staff wedi'u cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru, rheoleiddiwr y gweithlu. Gwneir hyn er mwyn sicrhau bod y staff yn meddu ar y sgiliau a'r cymwysterau perthnasol sydd eu hangen i weithio yn y sector gofal. Gwnaethom edrych ar wybodaeth sy'n ymwneud â goruchwylio ac arfarnu a gwelsom fod y gweithwyr gofal yn derbyn y lefelau gofynnol o gymorth ffurfiol, sy'n cyd-fynd â'r adborth cadarnhaol a gawsom.

Mae trefniadau llywodraethu da o fudd i'r gwasanaeth. Mae polisïau a gweithdrefnau ar waith i ategu ymarfer diogel, a chânt eu hadolygu'n rheolaidd a'u diweddaru pan fo angen. Gwelsom dystiolaeth fod yr Unigolyn Cyfrifol yn cyfarfod â'r bobl a'r staff yn rheolaidd i gael adborth ganddynt er mwyn llywio gwelliannau. Mae ansawdd y gofal a ddarperir yn cael ei adolygu'n unol â'r rheoliadau, a chaiff adroddiad ei gyhoeddi bob chwe mis. Mae'r adroddiad hwn yn tynnu sylw at yr hyn y mae'r gwasanaeth yn ei wneud yn dda ac at unrhyw feysydd i'w gwella. Caiff cwynion, digwyddiadau adroddadwy, a materion diogelu eu cofnodi a'u prosesu yn unol â'r polisi. Gwnaethom edrych ar groestoriad o bolisïau a gweithdrefnau'r gwasanaeth, a nodwyd eu bod yn adlewyrchu canllawiau statudol a chanllawiau arferion gorau cyfredol. Roedd y wybodaeth ysgrifenedig arall a welsom yn cynnwys datganiad o ddiben a chanllaw i ddefnyddwyr y gwasanaeth. Mae'r ddwy ddogfen yn adlewyrchu'r gwasanaeth a ddarperir ac yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 29/07/2024